

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Rhithiol o'r Is Bwyllgor Cyllid am 7.00pm nos Fercher 28^{ain} o Ebrill 2021

Agenda

Presennol

Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 24-03-2021

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad Ariannol

Cyfrifon terfynol 2020-2021

Archwylwyr Allannol Diweddariad os bydd

Taliadau angen sylw	
Cyflog Ebrill	£600.04
Treth Incwm Mis Mawrth	£149.80
Torri Gwair y Fynwent	£340.00
Costau Clerc – Ink	£ 60.50

Ceisiadau Nawdd

Prosiectau Prosiect Ysgol Y Faeno
Logo newydd
Septic Tanc Glasinfryn

I'w trafod hefyd

- Yswiriant
- Cais Talu mlaen llaw am gladdedigaeth
- Ffordd Menai
- Cysgodfan Nant y Mownt
- Asesu Risg

Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir
Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 24^{ain} o Fawrth 2021
yn Rhithiol am 7.00pm.

Presennol Cyng J Pierce, Cyng D Jones-Morris, Cyng D W Jones a Cyng B Jones,

Ymddiheuriadau Cyng L A James

Yn absennoldeb y Cadeirydd etholwyd Cyng D W Jones i Gadeirio y cyfarfod

Cod Ymddygiad

Atgoffa pawb o'r Cod ymddygiad ag os oedd gan rhywun angen datgan buddiant yna byddai angen iddynt wneud hynny ar lafar heno fel y gallai'r Clerc gofnodi

Datgelodd Cyng J Pierce fuddiant dan y penawd Cais am Nawdd gan ei bod yn aelod o Glwb y Garnedd oedd wedi anfon cais i mewn

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 24-02-2021

Cyng B Jones yn cynnig a'r Cyng J Pierce yn eilio eu bod yn gofnodion cywir

Materion yn codi o'r cofnodion

Dim nad oedd wedi ei gynnwys o fewn yr Agenda

Adroddiad Ariannol

Dosbarthwyd taflen ariannol y rhithiol

Yn y cyfrif Cyfredol £21,767.17 a £25,037.19 yn y cyfrif cadw

Archwylwyr Allannol

Dim wedi ei adrodd yn ol

Argymhellwyd talu'r anfonebau a ganlyn

Cyflog Mawrth	£599.84	Treth Incwm Mis Mawrth	£150.00	Delwedd	£431.28
Cymen Cyfieithu IBC	£392.81	Trydan y Capel	£ 50.87	Llnau cysgodfannau	£1050.00
Rhys Jones Trydanwr Diffibs	£441.90	Gosod polion y Diffibs	£2160.00		
Torri Gwair Cae Chwarae Caerhun	£295.00	Costau'r Clerc 2020-21	£388.80		
Hughes Jones Dyson Cyfrifwyr x 3		Cyfrifon 18 - 19	£360	19-20	£360
				a cyfloga 19-20	£168

Ceisiadau Nawdd

Dosbarthwyd rhestr o'r mudiadau/grwpiau oedd wedi derbyn nawdd hyd yma eleni oedd yn dangos cyfanswm o £3,282.00 sydd yn gadael £1718 yn y swm sydd wedi ei glustnodi ar gyfer Ad 137 sef £5000.00

4 Cais wedi dod i law

Clwb y Garnedd
Ysgol Tryfan
Canolfan Glasinfryn
Clwb Ioga Glasinfryn

Argymell i'r Cyngor Llawn ein bod yn cyfrannu £300 yr un i'r 4 Cais

Ychwanegwyd dymuniad yr IBC i glustnodi beth oedd yn weddill i ben y £5K sydd wedi ei glustnodi eto ar gyfer Blwyddyn ariannol 2021-22.

Esboniodd y Clerc fod hawl gan y Cyngor adolygu y swm £5,000 yn flynyddol wrth drefnu y gyllideb a bod yr uchafswm caniateir yn llawer uwch

Prosiectau

I. Prosiect Ysgol Y Faenol Yn absennoldeb Cyng L A James ni chafwyd diweddariad

- II. Septic Tanc Glasinfryn Y Clerc wedi siarad hefo W Font ag wedi cael ar ddeallt bydd arno angen dod i fesur lefelau onibai fod A Thomas yn gallu ei cael drwy'r camera. Os na fydd hynny yn bosib bydd angen iddynt gael cyfarfod safle
- III. Llnau cysgodfannau - Cysgodfannau i gyd wedi ei llnau yn ogystal a'r ½ cysgodfan yn Rhydygroes . **Gwaith o safon uchel**
- IV. Wal y Fynwent Clerc wedi cysylltu a'r Contractwr iddo gychwyn y gwaith ag o bosoib gorffen y gwaith erbyn diwedd y mis

Asesu Risg

Dim diweddariad mis yma

Yswiriant

Dim diweddariad er fod y Clerc wedi anfon manylion at David Palmer yn Come&Company i holi am amcanbris

Telerau y fynwent

Rhanwyd telerau'r Fynwent gan nad oeddant wedi ei adolygu ers 2018

Gofynnwyd i'r Clerc ddarparu mantolen gwariant a derbynebiadau ar gyfer y fynwent i fedru trafod ymhellach yn y Cyngor Llawn

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15